

Amaethyddiaeth ym Mhencar

Y mae tystiolaeth o amaethyddiaeth yng ngogledd Sir Benfro ar gael ar gyfnodau offeiriaid Tyddewi yn y canrifoedd trydydd ar bedwerydd ar ddeg. Beth bynnag am hir amser cyn hyn yr oedd amaethyddiaeth yn datblygu i gynnal poblogaeth yr ardal.

Cynhaliad Cynhanesiol

Yr oedd yr arfer o hau a medi cnydau wedi lledi o'r Dwyrain Canol i orllewin Ewrop tua 5000 CC. Yr oedd bobl Oes y Cerrig wedi newid o'r hen arfer o hela a chasglu i amaeth i gael cnydau mwy sefydlog. Y mae'r bobl hyn wedi gadael claddgelloedd enfawr sydd yn dangos fod dipyn o boblogaeth i allu adeiladu'r cromlechi hyn. Yr oedd y boblogaeth wedi cael ei bwydo gan rhai cnydau amaethyddol, cig o anifeiliaid y fferm wrth gadw wrth yr hen arfer o hela, pysgota a chasglu cnau a ffrwythau.

Symudodd yr oes ymlaen i Oesau'r Efydd ar Haearn ar Haearn a ddaeth offer a wnaethpwyd o fetel i wneud gwaith y fferm tipyn yn hawsach. 'Rydym yn gwybod fod ardal gogledd Sir Benfro a phentir Pencar, yn arbennig, yn safleoedd pwysig yn Oes yr Haearn. Y mae hefyd peth tystiolaeth o feddiant yma yn Oes yr Efydd. Y mae Ceiri o Oes yr Haearn ar Garn Fawr, ar yr ochr gorllewinol o fferm y Morfa, ym mhlwyf Mathri ar y ffordd i Drewrdan (a oedd yn y gorffennol yn rhan o fferm Pantycoch) a hefyd yn gyffredin yn sawl rhan o Sir Benfro. Yr ydym yn gwybod o'r dystiolaeth a gafwyd yng Nghastell Henllys, rhwng Trefdraeth ac Aberteifi bod trigolion Oes yr Haearn yn tyfu cnydau, yn defnyddio cynnyrch anifeiliaid ac y gwisgo dillad wedi ei wneud o ledr a gwlân

Y Canol Oesoedd

Fel aeth amser ymlaen a'r boblogaeth yn codi lledodd amaethyddiaeth trwy dorri'r coedwigoedd i lawr i dyfu cnydau a daeth magu anifeiliaid yn bwysig. 'Rydym fod gwartheg yn bwysig yn y gymdeithas fel mae llawer o gyfreithiau Hywel Dda (910 - 950) yn dangos. Yn y cyfreithiau hyn mae gwartheg yn cael ei ddefnyddio i dalu dirwy, gwaddol mewn priodas a theyrnged o un i'r llall. Y mae peth tystiolaeth o borthmyn yn mynd ac anifeiliaid i Loegr.

Cyn goresgyniad y Normaniaid yn Sir Benfro rhoddwyd tir rhwng Abergwaun a Thyddewi gan Dywysogion Cymru i'r Esgob neu arweinyddion Tyddewi o dan ei enw gwreiddiol, Pebidiog a alwyd yn Dewisland yn hwyrach. Nid oes gennym cofair o eiddo Esgob nes cyhoeddiad Llyfr Du Tyddewi pan oedd esgobaeth Tyddewi yn estyn o Dyddewi dros y ffin i Henffordd. Nid oedd yn cynnwys ardaloedd Esgob

Llandaf yn y De Dwyreiniol ond yn estyn i'r gogledd i gwrdd ag esgobaeth Llanelwy a Bangor.

Yr oedd eiddo pwysig yn perthyn i'r esgobaeth yn ardal Tremarchog. Enw'r eiddo oedd Villa Camerari gyda stiward i edrych ar ôl ystâd yr Esgob yn yr ardal. Yr enw ar Granston, y plwyf cyffiniol oedd Villa Grandi. Y mae'r ddau yn ymddangos y Llyfr Du Tyddewi gyda phlwyf Llanwnda i'r gorllewin. Mae yn bosibl adnabod llawer o ffermydd sydd yn dal yno.

Villa Camerari (Tremarchog)

Trellys 1 caracute 2 bovate Rhent 5/6c. 4 par o fenig 1 nodwydd

Fonon Pendryllyaun (Ffynnon Druidion) 1 caracute Rhent 3/4c 9 par o fenig 4 nodwydd

Mynydd Maildy 6 bovates Rhent 3/8c.

Lanodreon (Landridian) 1 ½ caracutes

Villa Grandi (Granston)

Llangloffan 4 caracute Rhent ½ c. ar y Pentecost a gwasanaethau - casglu defaid bob trydydd flwyddyn, cadw ac anfon carcharorion, presenoldeb yn y llys dirwy o 7/- (y mae'r cofnod hwn yn cael ei ddisgrifio fel Rhydd-ddaliadol h.y. Yn ddi rhent ond yn rhoi gwasanaeth ffiwdal.)

Trefwent (Tregwynt) 1 caracute 6 bovate Rhent 8/6c

Trefsyssillt (Tresassillt) 2 caracutes Rhent 10/- (Yn bosibl mae hwn oedd y rhent uchaf ar eiddo ym Mhencar.

Plwyf Llanwnda

Treffissac (Trefisheg) 1 carfacute Rhent 2/-

Llandogan (Capel Llandogan) 6 bovate Rhent 3/4c. A gwasanaeth cludiant o ddefnyddiau o Preskely (Priskilly) a Llwydarth (ger Maenclochog)

Castell Wladws 1 caracute Rhent 5/-

Kaergowil (Carngowil) 1 caracute Rhent

Trefhelyn (Trefhilin) 1 caracute Rhent

Carneth (Carnecoch) 1 caracute Rhent

Trefasser 6 bovate

Llanunohour (Llanwner) 1 caracute

Pencaderyk (Panteurig)

Penhesken (Penysgwarne) 1 caracute Rhent 1 nodwydd (Yn ôl cofnod hanesyddol yr oedd yr eiddo hwn ar ffi marchog, didal o rent ond gwasanaeth marchog a daliadaeth ffiwdal)

Trefiartho (Treatthro) 1 caracute

Treffthlynmyn (Trelimin)

Trenewy (Trenwydd)

Trefenuac (Trefayog)

Rhos Rouwen (Tresinwen)

Felindref

Llanferran

Y mae'r rhestr hon yn cynnwys enwau arall na allwn adwaen heddiw.

Ni newidiodd arferion amaethyddol llawer o'r cyfnod canoloesol hyd ddiwedd y ganrif 16eg. Yn dilyn cyfreithiau Cymreig a'r gyfundrefn ffiwdal a ddaeth gyda'r Normaniaid yr oedd y tir aradwy mewn lleiniau neu gaeau bychan. Oherwydd cyfreithiau etifeddogoeth a gafaelled yr oedd y ffermydd yn cael eu rhannu yn llai ac yn llai.

Yn y gyfundrefn Normanaidd yr oedd y mesured yn fwy ond o dan y ddwy gyfundrefn yr oedd yr anifeiliaid yr oedd yr anifeiliaid yn cael ei gadw allan o'r tir aradwy yn y tymor tyfu. Yr oedd dipyn o dir comin i'r anifeiliaid i bori yn yr haf. Yn hwyrach yn y Canol Oesau yr oeddynt yn dechrau gwrteithio'r tir gan ledi bras bridd (math o glai) neu'r drefn o gadw anifeiliaid ar dir aradwy yn y tymor braenar a oedd yn rhoi peth gwrtaiddd yn ôl i'r pridd. Dilynodd y Normaniaid y drefn ffiwdalaidd o redeg y gymdeithas a oedd yn bodoli dan y cyfreithiau Cymreig. Yn y drefn hon yr oedd marchog, swyddog a gafodd ei benodi neu Gymro pwysig yn cael eu penodi yn Arglwydd y Maenordy, ac o dan yr ystwythir hon yr oedd wahanol fathau o berchenogaeth tir gyda rhai yn gwneud amaethyddol a'r tir yn perthyn i'r maenordy.(y demen) Prin yw'r dystiolaeth gadarn o amaeth yn Nhremarchog ond mae'r annhebyg ei fod y n wahanol i ogledd Sir Benfro yn gyffredinol. Y mae rhai cofnodion o ffermio a'r tiroedd yn perthyn i'r eglwys ar ddiwedd y G.13eg.

Yng ngogledd Sir Benfro mae cofnodion, (mewn erwau) yn dangos:

	Ceirch	Gwenith	Barlys	Rhyg	Pys/Ffa
Ynys Dewi	17	10	3		
Castell Pointz	84	50	12	8	8
Casmoris	47				
Trefin	79	15	2	5	

Yr oedd y cynnyrch yn isel 3 i 5 am bob hadyn.

Cynnyrch i'w werthi.

Yr oedd y ffermio dim ond i gynnal y teulu a dim ond a'r brydiau oedd digon ar ôl i'w werthi. Beth bynnag gydag amser yr oedd gweddill i'w werthi i ardaloedd cyfagos ac o ddiwedd y G.17ain ymlaen yr oedd porthmyn yn mynd ar deithiau hir i lawer rhan o Loegr.

Yr oedd gwartheg, defaid, moch, gwyddau ac ieir yn cael ei werthi yn yr ardal a gynhaliwyd yn arferol yn yr haf a'r hydref ffeiriau agosaf i Dremarchog oedd Mathri a Dreletert. Aeth y gwartheg ar droed o'r ffermydd i'r ffeiriau a'i gwerthwyd drwy daro bargaen rhwng y ffermwr a'r prynwr. Rhoddwyd Breinlen Frenhinol i amryw drefydd megis Hwlfordd oedd yn rhoi caniatâd iddynt gynnal ffeiriau ar ddyddiadau arbennig. Yr oedd hefyd ffeiriau cyflogi lle 'roedd bechgyn a merched yn cynnig gweithio a'r ffermydd cyfagos. Y mae'r dystiolaeth orau am ffermio yn y blynyddoedd cynnar o 1600 ymlaen yn dod o lyfr George Owen, Fferm yr Henllys, Trefdraeth . Y mae y ysgrifenni am dyfu gwenith, barlys, ceirch, rhyg, pys a ffa a chadwraeth o wartheg, defaid, moch, gwyddau ac ieir. Y mae hefyd yn son sut yr oedd tir pori yn cael ei newid i dir aradwy drwy dorri matau, ei adael i sychi, ei rhoi ar dan a sgwaru'r lludw ar y tir. Yr oedd yr arfer hon, nid yn llafurus yn unig ond dros gyfnod o 5-7 mlynedd yn wneud y tir yn ddiffaith a rhaid ei gadw yn atsol cyn tyfu rhagor o gnydau.

Y mae disgrifiad arall o ffermio yn Sir Benfro yn dod oddiwrth Charles Hassell a gafodd ei benodi gan y Bwrdd Amaethyddol yn 1793 i ysgrifenni adroddiad ar amryw o siroedd yn cynnwys Sir Benfro. Yr oedd yn feirniadol o'r erydr, trefniant cnydau a chyflwr yr adeiladau. Ysgrifennodd Edward Perkins, a anwyd yn Nhyddewi yn 1840, ei gof am arferion yn ystod ei yrfa yn ffermio. Yr oedd hefyd yn farnol ar yr erydr:

“Dim gwellhad ers oes y Rhufeiniaid - Dyw ffermio ddim wedi newid ers y Frenhines Elizabeth 300 mlynedd yn ôl a ddim derbyniad i gyfarpar a dulliau newydd.”

Dilyniant o 1800

Does dim amau fod amaethyddiaeth yn llwyddiannus yn ystod y rhyfeloedd yn erbyn Napoleon, rhwng 1795 a 1820, gyda phrisiau uchel yn enwedig am wenith. O hynny ymlaen yr oedd y llwyddiant amaethyddol yn amrywio gyda chyfnodau hir o flynyddoedd anodd.

Yn un o'r cyfnodau hyn daeth helynt Rebeca (1838-1843) i orllewin Cymru a ddechreuodd o ymateb i godiant ym mhrisiau'r tollborth a oedd yn peri gofid a thraul i'r ffermwyr. Yr oedd hefyd achosion cymdeithasol hefyd, megis amgylchiadau byw, cyflogau isel a rhentydd uchel gan dir feistri pwerus. Yn 1846 gafodd Ddeddf yr ŷd, oedd wedi cadw pris yr ŷd yn uchel drwy gyfyngi fewnforion ei ddiddymi. Er hynny yr oedd twf y boblogaeth yn yr ardaloedd diwydiannol yn cadw pris gwenith a chnydau eraill yn uchel.

Aeth llwyddiant ym myd amaethyddiaeth i lawr o ddifrif yn y pum mlynedd ar hugain olaf y ganrif oherwydd y mewnforio uchel o gynnyrch amaethyddol o'r Unol Daleithiau Amerig, Canada ac Awstralia. Yn dilyn hyn cwmpodd pris gwenith o 7/- y winshis yn 1870 i 3/6c. erbyn 1890. Yn yr un adeg gostyngodd prisiau cig, caws a menyn 50 y cant.

O ganlyniad i hyn penodwyd Arbrwyadaeth Brenhinol yn 1893 ar "Tir yng Nghymru" a chlywid tystiolaeth gyhoeddus yn 99 o ardaloedd. Yr agosaf i Dremarchog oedd y Nhreletert, 6 milltir i'r de ar y ffordd i Hwlfordd.

Daeth newid a'r ddiwedd y ganrif 19eg ymlaen gyda rhagor o reolau cyfreithiol a'r ddaliadaeth amaethyddol, peth gwellhad mewn prisiau a pheiriannau yn dechrau cymerid lle gwaith llaw. Yr oedd llawer o'r peiriannau yn cael ei wneuthur yn y D.U. a hefyd rhai o'r peiriannau newydd yn dod o'r U.D.A Ni welwyd llawer o dractorau hyd 1920, a cyn hynny ceffylau ac injan stem oedd yn cael ei ddefnyddio.

Amaethyddiaeth o 1900 i'r presennol

Dros amser gwelwyd datblygiadau amaethyddol yn Nhremarchog fel yn Sir Benfro yn gyffredinol, trwy welliannau gwyddonol, polisi'r llywodraeth a'r pwysau i gynhyrchi mwy o achos twf yn y boblogaeth. Galluogwyd hyn drwy fecaneiddio gyda llai o waith llaw a defnyddio gwrtaith a chemegau i gynhyrchi mwy ac i safon uchelach.

Un nodwedd o Sir Benfro a Tremarchog o'r tridegau a dros yr hanner can mlynedd yn dilyn oedd y diwydiant tatws cynnar. Yr oedd y pridd ysgafn, tywydd mwyn a gwanwyn cynnar yn addas i lawer o'r fferymydd. Tynnwyd y tatws o Fai i Orffennaf ai gwerthwyd ym marchnadoedd y trefi mawr megis Llundain, Birmingham a Manceinion. Cludwyd yn fynych ar y rheilffordd ond o bumdegau ymlaen oedd loris yn mynd ar gnwd o'r cae i'r canolfan marchnata.

Heddiw, mae gogledd Sir Benfro a Tremarchog yn dibynni ar ffermio cymysg. Y mae rhai yn yr ardal yn cadw i gynhyrchi laeth, ac yn cadw nifer sylweddol o wartheg (600-800), eraill yn llai gyda 200 i 500. Y mae dwy fferm yn godro mewn dulliau organig. Y mae hefyd nifer sylweddol o ddefaid a da cadw ar y ffermydd a chnydau o rawn a thatws yn cael ei farchnata trwy gydol y flwyddyn.

Y mae'r diwydiant llaeth wedi newid yn llwyr dros y deugain mlynedd diwethaf, yn y beudy, ei bwydo ac yn ei thriniaeth. Y canlyniad yw, o tua 1970 hyd yn awr y mae'r nifer o ffermydd sydd yn cadw da godro yng Nghymru wedi gostwng yn aruthrol, ond mae nifer o wartheg yn y rhai sydd ar ôl wedi cynyddi. Y mae llaeth bob buwch wedi dybli o 4000 mil o litrau i 8000m mil heddiw. Cyrhaedded cynhyrchiant llaeth yn D.U. ei uchafbwynt yn 1983/84 cyn i'r UE rhoi cwota. Nid ydym wedi rhagori ar y 14 miliwn o dunelli o laeth y pryd hynny hyd yn ddiweddar ond yn awr gyda hanner y gwartheg oedd yn bodoli yn 1970.